CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adorddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **NOS LUN, 10fed MEHEFIN, 2024,** yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 y.h. hyd 8.30 y.h.
Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorywr Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Siôn Williams

17. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Llongyfarchodd Y Cynghorydd Efan Thomas a'i briod Mared Thomas, ar enedigaeth merch fach, Elena Glyn, a dymunodd yn dda iddynt fel teulu.
Cydymdeimlwyd â'r Clarc hefyd yn y brofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith.

18. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

19. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MAI, 2024

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Mai, 2024.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).
Eitem yn codi – eitem 11 – cymal (a) cais cynllunio Cae Capel, Botwnnog Cyflwynwyd :
(1) Ymateb Rheolwr Cynllunio ynglyn a chyfarfod i drafod y cais uchod.
(2) Ymateb Pennaeth Llwyodraethu Adra.
(Bydd copi o'r ddau ymateb yma yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol).
(3) Llythyr Sian Pari, Perthyn, i Jeremy Miles, A.S. – derbyniwyd y llythyr hwn ychydig o flaen y Cyngor a rhannwyd copi o'r cyfryw i'r aelodau, pryd y penderfynwyd nodi ei dderbyn.
Penderfynwyd nodi'r wybodaeth uchod.

20. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio.

21. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd
(a) Anfon y materion a ganlyn i'r Adran Priffyrdd yng Nghyngor Gwynedd:
barbio y groesffordd sy'n arwain o Dy Mawr Capel, Bryncroes, i fyny at y briffordd o Aberdaron i Bwllheli. Bu damwain ddrwg ar y groesffordd yma fore Sadwrn rhwng car a bws oherwydd diffyg gweledigaeth i ddod i'r briffordd.
barbio y tyfiant sydd ar bont Saithbont, Botwnnog – y gweledigaeth ddim yn dda ac felly mae'n golygu fod cerbydau yn gorfod bagio'n ol os oes cerbyd wedi cychwyn dros y bont o'r ochr arall.
gwellt yn tyfu ar ganol y ffordd o'r groesffordd i lawr am Ty Mawr Capel, Bryncroes angen sylw – eisioes wedi tynnu sylw at hyn yn ddiweddar.

(b) Gofyn i'r Uwch Beirinnydd Traffig yng Nghyngor Gwynedd a fyddai modd rhoi drych, dyweder ar wal Bodafon, Sarn, gan fod modurwyr yn cael trafferth i droi i fyny am Fryn Mawr pan yn teithio o gyfeiriad Botwnnog.

(c) Anfon at y Gwasanaethau Carthffosiaeth yn Dŵr Cymru i dynnu sylw at yr arogl sy'n dod o'r gwaith trin rhwng Trewen a Phen-y-Bont, Botwnnog. Hefyd holi beth sydd yn digwydd yn yr orsaf bwmpio ger Dolafan, Botwnnog, gan y gwelwyd tanceri Gews yno am ddau/dri diwrnod yn ddiweddar iawn.

(ch) Parc Chwarae yn Sarn – tynnwyd sylw fod y gwellt wedi tyfu yn y parc, ac er nad oedd gan y Cyngor unrhyw ddyletswydd i wneud dim o amgylch hyn, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cael gair ag un neu ddau o'r aelodau.

22. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Un Llais Cymru	£186.00 (siec 200830)
Canolfan Arddio Tyddyn Sachau	£200.00 (siec 300831)
Y Clarc	£420.00 (siec 200833)
HMRC	£105.00 (siec 200832)

Yn y cyswllt hwn, adroddodd y Clarc fod y ffurflen flynyddol wedi ei chytuno gan yr Archwiliwr Mewnol ond fod dau bwynt wedi ei godi ganddynt sef:

"...Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

• Methiant i ddiweddaru'r gofrestr asedau. Fodd bynnag, mae trefniadau ar y gweill i ddatrys hynny.

• Diffyg tryloywder yn deillio o fethiant gyhoeddi cyfrifon archwiliedig 2022/23 yn unol â Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013. Fodd bynnag, mae trefniadau ar y gweill i wireddu hyn."

Dywedodd y Clarc fod y ddau bwynt uchod wedi eu cyflawni bellach a'r wefan wedi cael ei newid i gynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

(Noder – fod copi o'r ffurflen ac Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol wedi ei rannu i'r aelodau noson y Cyngor ac yn ffurfio rhan o'r cofnodion hyn).

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad uchod ac awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo fod y datganiadau cyfrifedig a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor.

23. **DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O DERFYNAU CYFLYMDER CYMRU – 20 mya**

Y newydd diweddaraf wedi ei rannu gyda'r aelodau a nodwyd hynny.

24. **ADOLYGU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Yn wyneb fod cryn waith ar fynd drwy'r Rheolau Sefydlog, **penderfynwyd** ethol Is-bwyllgor, sef Y Cadeirydd, Y Cynghorwyr Glyn Roberts a Glenys Williams, i edrych drostynt ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

25. **PLANNU'R TYBIAU**

Addawodd y rhai a ganlyn blannu'r blodau :

Bryncroes – Y Cynghorydd Glyn Roberts a Michael Strain

Sarn – Y Cynghorydd Carys E. Williams

Y Fantol – Y Cynghorydd Glenys Williams a'r Clarc

Botwnnog – gofyn i'r Cynghorydd Carys H. Evans wneud y twb yma.

26. **TAI FFORDDIADWY I BOBL LEOL**

Rhannwyd gwybodaeth "fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o gynllun peilot er ceisio taclo'r sefyllfa ail garterfi yn ardal Dwyfor a sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol. Maent yn awyddus i ddeall beth yw effaith ail gartrefi ar bobl a chymunedau Dwyfor ac os yw'r bobl yn gwybod am y cynllun peilot."
Yr ymchwilydd yw Caryl Lewis ac oedd unrhyw un a diddordeb mewn cymryd rhan a sgwrsio gyda Caryl yna yr e-bost yw post@celyn.cymru

27. **Y DRETH PREMIWM**

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Swyddog yng Nghyngor Gwynedd ynglyn a'r Dreth Pemiwm sydd yn cael ei dalu yn ardal Llŷn oherwydd y nifer o ail dai sydd yn yr ardal – ble mae'r arian yma yn cael ei ddyfranu; a yw'r arian yn cael ei rannu'n dêg gan gofio fod Pen Llŷn yn ardal gyda dwysedd uchel o ail gartrefi, felly a ydynt yn derbyn mwy o gyllid nag ardaloedd, fel y trefi, sydd a llai o ail gartrefi.